Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Practis Deintyddol My Dentist, Llanbedr Pont Steffan

4 Awst 2015

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o’r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

Digidol ISBN - 978-1-4734-4981-7
© Hawlfraint y Goron 2014

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 2

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 6

    Profiad y Claf ........ 6

    Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 8

    Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 11

    Ansawdd yr Amgylchedd ........ 13

6. Y Camau Nesaf ........ 14

    Atodiad A ........ 15

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol My Dentist, The Barn, Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan , SA48 7DS (rhan o grŵp IDH), yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 4 Awst 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol My Dentist yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanbedr Pont Steffan. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Practis Deintyddol My Dentist yn darparu gwasanaethau’r GIG yn bennaf, gyda rhai gwasanaethau deintyddol preifat.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, pedair nyrs, dau dderbynnydd, a rheolwr practis. Mae'r practis yn cynnig gwasanaeth dwyieithog (Cymraeg/Saesneg).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Llenwadau, coronau a phontydd
- Dannedd gosod
- Triniaethau cosmetig
- Gwynnu dannedd
- Rhagoriaeth dannedd gosod
- Triniaeth llif aer
- Bydd mewnosodiadau'n dechrau'n fuan.

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut roedd practis deintyddol My Dentist yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol. Gall cleifion dderbyn gwasanaeth cwbl ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg).

Er i ni gael ein sicrhau bod y cyfleusterau clinigol, a'r gofal a'r driniaeth, wedi'u cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau perthnasol, canfuom fod angen gwelliannau o ran cadw cofnodion clinigol. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwaredu gwastraff. Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn cydymffurfio â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 [4].

Gwelsom dîm staff ymroddedig, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu swyddi. Roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau canllawiau clir ar gyfer y staff, er bod angen mireinio'r weithdrefn a'r polisi ar gyfer cwynion am wasanaethau preifat.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

[4] Bwriad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yw codi ansawdd gwaith dadheintio mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Fe’n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a’u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol. Gall cleifion dderbyn gwasanaeth cwbl ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg).**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i’r practis ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 25 o holiaduron cleifion (Cymraeg a Saesneg) cyn dyddiad yr arolygiad. Ni roddodd un claf ganiatâd i ni ddefnyddio ei sylwadau yn yr adroddiad hwn. Gwnaethom hefyd sgwrsio â thri chlaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd adborth cleifion yn gyson gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld deintydd. Fodd bynnag, dywedodd chwe chlaf wrthym eu bod wedi profi oedi "ar brydiau”, am "[d]dim ond cwpl o funudau", ac am ddim ond 15–20 munud.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *“Mwy na bodlon. Rwy wedi cael fy iacháu’n gyfan gwbl o fy ffobia deintyddol roeddwn wedi dioddef ohono ers yr ugain mlynedd diwethaf."*
>
> *"Ydw, diolch, yn fodlon iawn."*
>
> *"Ydw, gwasanaeth ardderchog."*

Dywedodd fwy na thri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd arwydd y tu allan i'r practis yn dangos y rhif cyswllt brys, a gwnaethom gadarnhau hefyd bod rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis. Felly, roeddem yn fodlon bod gan y cleifion sawl ffordd o gael gwybodaeth mewn argyfwng.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod dewisiadau o ran triniaeth yn cael eu trafod gyda’r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau’r cleifion.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng, gan alluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym pe bai angen.

Nid oedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael oherwydd bod y practis newydd newid ei enw brand. Anfonwyd enghraifft o'r daflen arfaethedig at AGIC, a gwnaethom awgrymiadau i sicrhau ei bod yn diwallu'r safonau gofynnol.

Roedd gan y practis amrywiaeth o daflenni gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn y mannau aros, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu a chodi ymwybyddiaeth o ganser y geg.

Roedd gan y practis system ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd, a gwelsom holiaduron yn y dderbynfa.

Pan wnaethom ofyn ynglŷn â gwneud cwyn, dywedodd bron i chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod polisïau cwyno ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG wedi'u harddangos yn y practis.

Isod mae enghreifftiau o rai o'r sylwadau a wnaed gan gleifion:

“Rwy'n fodlon dros ben ar bob agwedd o'r gwasanaeth.”

> “Heb os, y deintydd gorau dwi wedi ei weld erioed … mae'r driniaeth rydyn ni bob amser yn ei derbyn yn ardderchog.”
>
> “Mae'r staff i gyd yn ddymunol iawn, ac mae'r deintyddion yn ardderchog. Da iawn!”
>
> "Pawb yn gyfeillgar iawn! Croeso cynnes bob tro!"

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Er i ni gael ein sicrhau bod y cyfleusterau clinigol, a'r gofal a thriniaeth, yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol â'r safonau perthnasol, canfuom fod angen gwelliannau o ran cadw cofnodion clinigol. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwaredu gwastraff. Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn cydymffurfio â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.**

**<u>Cyfarpar/dogfennau radiograffig</u>**

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y ddogfennaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Roedd pob aelod o staff roedd yn ofynnol iddynt ei wneud wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio ar-lein. Er bod hyn yn cyrraedd yr oriau hyfforddiant gofynnol, byddai'n fuddiol pe byddai staff yn mynychu'r hyfforddiant a ddarperir gan y Ddeoniaeth.

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu bod yn defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) a'u bod wedi cynnal archwiliadau sicrwydd ansawdd ar y cyfarpar hwn. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel a'i fonitro'n barhaus. Fodd bynnag, roedd bylchau yn y wybodaeth a oedd yn ofynnol ar gyfer y Ffeil Amddiffyn Rhag Ymbelydredd, a gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis, a gytunodd i sicrhau bod pob maes yn cael ei gwblhau'n brydlon. Mae angen gwella'r dogfennau radiograffau a geir yng nghofnodion y cleifion yn y maes canlynol:

- Dylid bod mwy o ddefnydd o belydrau-X 'bitewing' (sef pelydr-X sy'n archwilio un rhan arbennig o'r geg).

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pelydrau-X 'bitewing' yn cael eu cynnig yn unol*** â'r canllawiau presennol.

## Dadebru a chymorth cyntaf

Roedd y staff yn wybodus ynglŷn â'r hyn a ddylid ei wneud pe byddai argyfwng meddygol, ac roedd polisi dadebru cyfredol ar waith er mwyn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob aelod o staff yn glir.

Roedd un aelod o staff wedi'i benodi'n swyddog cymorth cyntaf ar y safle, ac roedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Roedd cyfarpar dadebru priodol a threfnus ar gael i'r staff pe byddai argyfwng meddygol (llewyg). Ar adeg yr arolygiad, roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU). Roedd hyn yn golygu bod staff wedi cael y cyfle i ddysgu sut i reoli argyfyngau meddygol.

## Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys wedi'u storio'n drefnus mewn lleoliad da a diogel. Roedd system gadarn ar waith i sicrhau bod dyddiadau dod i ben cyffuriau'n cael eu monitro. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn.

## Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract cyfredol ar waith i waredu â gwastraff clinigol. Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer trin mercwri'n ddiogel.

## Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)[1]

Roedd gan y practis un ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol, ac roedd yn bodloni'r safonau a nodir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1). Gwelsom fod bocsys wedi eu labelu'n glir a'u selio yn cael eu defnyddio i gario offer sydd wedi'u defnyddio ac offer glân yn ôl ac ymlaen i'r ystafell ddadheintio.

Roedd yr holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau ar ôl eu sterileiddio, gan nodi'r dyddiad prosesu arnynt. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, ac roedd system fewnol ar waith i wirio bod yr offer yn cael eu defnyddio o fewn amser penodol. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio yn hyn o beth.

Gwelsom fod yr aelodau staff a oedd yn cynnal gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwnnw.

Gwelsom fod y llyfrau log ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau safonol a oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau ac ar ddiwedd bob dydd.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad Deoniaeth Cymru o ofynion rheoli heintiau yn ddiweddar. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiad parhaus â gofynion rheoli heintiau ac i sicrhau bod offer yn ddigon glân a diogel i'w defnyddio ar gleifion.

## Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gweld eu bod yn lân ac yn drefnus a'u bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd niferoedd digonol o offer a chyfarpar deintyddol, oll mewn cyflwr da, wedi'u storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom fod digon o eitemau ac offer diogelu untro ar gael i'r cleifion a'r staff eu gwisgo yn ystod y sesiwn driniaeth.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offer deintyddol eraill) wedi'i gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion. Fodd bynnag, am resymau diogelwch, roeddem yn pryderu ei fod wedi'i gadw o fewn cafn y grisiau. Gwnaethom drafod y mater hwn â rheolwr y practis, a ddywedodd wrthym ei bod hefyd wedi lleisio pryder gyda'r awdurdodau perthnasol ac wedi cael ei chynghori ganddynt nad oedd unrhyw broblemau o ran hyn. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

## Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Roedd safon cadw'r cofnodion yn dda, ac roedd angen gwelliannau mewn dau faes yn unig: Cofnodion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn fwy, gyda llai o ddefnydd o dempledi Mwy o fanylion yn y cofnodion ysgrifenedig

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dîm staff ymroddedig, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu swyddi. Roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau canllawiau clir ar gyfer y staff, er bod angen mireinio'r weithdrefn a'r polisi ar gyfer cwynion am wasanaethau preifat.**

### Staff

Roedd y practis yn cynnig triniaeth ddeintyddol i gleifion y GIG yn bennaf, gyda rhywfaint o driniaethau preifat. Roedd yna reolwr practis a oedd yn goruchwylio'r gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd gan unigolion swyddi penodol, ac roeddent yn cydweithio'n rhwydd iawn fel tîm. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymroddedig, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu gwaith.

Roedd y deintydd a'r nyrsys deintyddol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt gontractau cyflogaeth. Roedd gan yr holl staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Mae hyn yn arfer nodedig oherwydd dim ond ar gyfer deintyddion y mae'n ofynnol dan y rheoliadau i gael tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwelsom fod y tystysgrifau sy'n cadarnhau bod y deintyddion wedi cofrestru gydag AGIC wedi'i harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd y practis yn ymwybodol o'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gynigid gan y bwrdd iechyd, ond y byddai'n ymchwilio iddo ar frys. Roedd gan y deintyddion yswiriant indemniad unigol, ond roedd yr holl aelodau staff eraill yn dod o dan yswiriant corfforaethol grŵp IDH ar gyfer ymarfer clinigol.

Gwelsom dystiolaeth bod staff clinigol wedi cyflawni datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom ffeil gynefino a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol i staff a oedd yn newydd i'w swydd.

Cynhelid cyfarfodydd staff ffurfiol yn fisol, a chadwyd cofnodion. Roedd y cofnodion yn dangos enghreifftiau i ni o wersi a ddysgwyd, a hefyd enghreifftiau o rannu gwybodaeth berthnasol, megis newidiadau o ran polisïau a gweithdrefnau, a chanlyniadau cyfarfodydd y rheolwr practis.

Roedd system ar waith ar gyfer arfarniadau ffurfiol, a gwelsom fod yr un diwethaf wedi'i gynnal ym Mehefin 2015. Mae arfarniadau'n ffordd bwysig o roi cymorth ffurfiol i staff wrth iddynt ystyried eu gwaith eu hunain, ac o nodi unrhyw anghenion o ran cymorth a datblygiad proffesiynol.

**Amddiffyn plant ac oedolion**

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith a oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol pe bai angen i'r staff atgyfeirio. Roedd hon yn enghraifft o arferion nodedig am ei bod yn sicrhau bod prosesau diogel ac amserol ar waith i amddiffyn plant sy'n agored i niwed.

Roedd staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd polisi ar waith, ac, eto, gwelsom fanylion cyswllt er mwyn gallu atgyfeirio'n ddiogel ac yn amserol pe bai angen.

**Cwynion**

Roedd gweithdrefn gwyno ar gael a oedd yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer cleifion y GIG. Gwelsom fod y polisïau cwyno ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat wedi eu harddangos yn y practis.

Roedd cwynion yn cael eu cadw’n ganolog, ar wahân i gofnodion y cleifion. Roedd sylwadau a phryderon llafar yn cael eu cofnodi'n electronig hefyd. Bydd hyn yn ei wneud yn bosibl nodi tueddiadau yn gynnar.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus yn trafod pryderon â rheolwr y practis. Roedd polisi chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu, a gallai'r staff ei ddefnyddio i nodi ac i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

**Polisïau a gweithdrefnau**

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio gyda'r wybodaeth fwyaf cyfredol. Roedd tystysgrifau a chofnodion ar waith ar gyfer gwaith cynnal a chadw hefyd.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.**

Roedd y practis wedi'i leoli yng nghanol tref Llanbedr Pont Steffan. Roedd y practis wedi'i osod ar ddau lawr. Nid oedd hyn yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd tair ystafell driniaeth yn cael eu defnyddio ar adeg ein hymweliad arolygu. Nid oedd man parcio preifat ar y safle, ond roedd maes parcio gerllaw.

Canfuom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol y tu mewn, ac roedd wedi'i oleuo, ei wresogi a'i awyru'n briodol. Roedd rhan allanol y practis mewn cyflwr da.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwyddion clir y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis. Roedd rhifau cyswllt y gallai'r cleifion eu ffonio mewn argyfwng yn weladwy o'r tu allan. Roedd rhestrau prisiau yn cael eu harddangos ar ddesg y dderbynfa.

Gwelsom fod toiledau ar wahân ar gyfer y staff a'r cleifion a'u bod yn edrych yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio.

Roedd maint y man aros yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunydd darllen ac ychydig o bosteri hyrwyddo iechyd.

Roedd arwyddion yn cyfeirio at yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddyddion tân wedi cael eu harchwilio’n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro rhywun rhag cael mynediad heb awdurdod i’r adeilad.

Gwelsom fod gohebiaeth a chofnodion cleifion ar bapur wedi'u storio'n ddiogel.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hwn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n eglur pryd a sut y bydd yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol My Dentist, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol My Dentist, Llanbedr Pont Steffan

## Dyddiad yr arolygiad: 4 Awst 2015

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Nid oes angen gwneud gwelliannau. | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| Tudalen 8 | Mae angen i'r practis sicrhau bod pelydrau-X 'bitewing' yn cael eu cynnig yn unol â'r canllawiau presennol.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5; Safonau 3.2, 3.3, 3.5, 5.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol] | Roedd y Rheolwr Cymorth Clinigol wedi nodi'r mater hwn ar ôl adolygu'r archwiliad pelydrau-X a gwblhawyd ym mis Gorffennaf a hefyd ar ymweliad arsylwi a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2015. Trafodwyd y mater hwn gyda'r deintyddion yn ystod yr ymweliad hwnnw, ac adolygwyd y canllawiau.<br><br>Mae wedi gofyn i archwiliad pelydrau-X arall gael ei gwblhau ymhen tri mis, a bydd Rheolwr y Practis yn sicrhau y bydd hwn yn cael ei gynnal | Rheolwr y practis<br><br>Deintyddion<br><br>Rheolwr Cymorth Clinigol | Cynhelir yr archwiliad cyn 30 Hydref. Trefnir ail ymweliad gan y Rheolwr Cymorth Clinigol ym mis |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | ar ddiwedd mis Hydref.<br>Mae pob deintydd wedi cael cyfarfod gyda'r rheolwr er mwyn trafod Arwyddion Hanfodol. Bydd y Rheolwr Cymorth Clinigol yn trefnu ail ymweliad ym mis Tachwedd er mwyn adolygu a thrafod yr archwiliadau. | | Tachwedd 2015. |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Nid oes angen gwneud gwelliannau. | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | Nid oes angen gwneud gwelliannau. | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):Cindy Edwards**

**Teitl:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **30 Medi 2015**